**EITEM AR YR AGENDA: 6**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**10fed o Fai 2010**

**Drafft cyntaf y Cynllun Gwella a Lleihau Risg ar y cyd 2009-12, a'r ddogfen ymgynghorol gysylltiol**

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Cyflwyno, i gael cymeradwyaeth yr aelodau, y drafft cyntaf o'r Cynllun Gwella a Lleihau Risg ar y cyd 2009-12, a'r ddogfen ymgynghorol a'r holiadur cysylltiol.

## Cefndir

2 Yn 2006, lluniwyd arweiniad gan Lywodraeth y Cynulliad ar Gynllunio i Leihau Risg, gyda'r nod o ddarparu dull strwythuredig i reoli risg corfforaethol a chymunedol.

3 Yn 2008, cyhoeddwyd Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub diweddaredig gan Lywodraeth y Cynulliad, a oedd yn ailadrodd yr angen i'r Awdurdodau Tân ac Achub lunio, ymgynghori'n gyhoeddus, a chyhoeddi, am bob blwyddyn ariannol, eu cynllun gweithredu blynyddol/Cynllun Lleihau Risg, a hynny erbyn Hydref 31 bob blwyddyn.

4 Mae Adran 2 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod gwella Cymreig wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus.

5 Mae Adran 3 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau gwella Cymreig osod amcanion gwella iddynt eu hunain.

6 Mae Adran 5 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau gwella Cymreig ymgynghori â thrigolion, rhai sy'n talu trethi annomestig, defnyddwyr neu ddefnyddwyr posib y gwasanaeth, a phobl sydd â diddordeb yn y maes 'i ddiben penderfynu sut i gyflawni' y ddyletswydd gyffredinol i wella'n barhaus, a'r ddyletswydd benodol i osod amcanion gwella iddynt eu hunain.

7 Mae Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Cynlluniau Gwella) (Cymru) 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau gwella Cymreig gyhoeddi eu cynlluniau gwella cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol a rhesymol ar ôl Medi 30 yn y flwyddyn cyn y flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi. I gyd-fynd ag amserlen cyhoeddi'r Cynllun Lleihau Risg, dehonglwyd hyn fel Hydref 31 ymhob blwyddyn.

## Cyflwyniad

8 Gan adeiladu ar brosesau blaenorol y Cynllun Lleihau Risg, yn cynnwys ymgynghoriad cyhoeddus y llynedd, mae Gweithgor Cynllun Lleihau Risg yr Awdurdod wedi bod yn datblygu amcanion lleihau risg drafft ar gyfer ymgynghori'n gyhoeddus yn eu cylch dros gyfnod haf 2010.

9 Yn y cyfarfod o'r Awdurdod llawn ym Mawrth 2010, fe gymeradwyodd yr aelodau ddatblygu amcanion lleihau risg, yn ymwneud â chynaliadwyedd, cydraddoldeb ac amrywiaeth a rheoli parhad busnes, a fyddai'n rhan o Gynllun Gwella a Lleihau Risg ar y cyd yr Awdurdod ar gyfer 2009-12.

10 Bydd ail ddrafft o'r Cynllun Gwella a Lleihau Risg ar y cyd 2009-12, a'r ddogfen ymgynghorol gyhoeddus gysylltiol, yn cael eu cyflwyno at ddiben cymeradwyaeth gan yr Awdurdod llawn yn ei gyfarfod ym Mehefin 2010. Yn dilyn cyfnod ymgynghori, bydd trydydd drafft (yn ymgorffori newidiadau os bydd angen) yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod yn ei gyfarfod ym mis Hydref 2010 ar gyfer cael cymeradwyaeth derfynol i'w gyhoeddi erbyn Hydref 31.

## Gwybodaeth

11 Bydd y drafft cyntaf o'r Cynllun Gwella a Lleihau Risg ar y cyd ar gael yn y cyfarfod. Oherwydd yr amserlen, mae'r ffigyrau alldro ar

gyfer 2009/10 yn dal wrthi'n cael eu casglu - caiff y rhain eu hymgorffori wrth iddynt ddod ar gael.

12 Mae'r drafft cyntaf o'r Ddogfen Ymgynghorol ynghlwm yn Atodiad 1. Bydd fformadu pellach a rhagor o wybodaeth safonol yn cael eu hymgorffori yn yr ail ddrafft ar gyfer y cyfarfod llawn o'r Awdurdod ym mis Mehefin.

## Argymhelliad

13 Gwahoddir yr Aelodau i ystyried y dogfennau drafft cyntaf, ac i gytuno ar unrhyw ychwanegiadau neu welliannau ar gyfer cynhyrchu'r ail ddrafft i'w gyflwyno i'r cyfarfod o'r Awdurdod Tân ac Achub llawn ym Mehefin 2010.